



SOCIAL SERVICES

Direct Payments

This information may also be provided, by request, in other languages, in large print, CD, or simplified version. Please contact the Innovation and Information Team on tel: **01446 704814** to make arrangements. Email socialcareinfo@valeofglamorgan.gov.uk

What are Direct Payments?

A Direct Payment is an alternative way of receiving a service from Social Services. Instead of a service being arranged for you, you will receive a cash payment. You can then use this money to arrange your own support, giving you more choice, control and flexibility over how your needs are met.

A Direct Payment can be paid to the following groups of people, following an assessment of need by a case manager:

- People with a physical impairment
- People with a sensory impairment
- People with a learning disability
- Older people
- People with mental ill health
- People with parental responsibility for a disabled child
- Children with a disability aged 16 or 17 years old
- Carers (Including young carers aged 16 or 17 years old)
- A "Suitable Person" on behalf of a person lacking capacity

You can use Direct Payments in many different ways. Most people choose to employ a Personal Assistant (PA). However this is not the only way they can be used. You might decide to contract privately with an agency, or even a mixture of the two. However, Direct Payments cannot be used to purchase long-term residential care or nursing care. You can't use Direct Payments to pay for Council-funded services (such as certain day centres).

Who can receive Direct Payments?

Direct Payments can be made to most people who are assessed as needing social care and support. This includes:

- Older people needing community care services
- Disabled people
- People with mental health problems
- People with parental responsibility for a disabled child
- Carers who are caring for a disabled adult

To get Direct Payments you must:

- Be aged 16 or over
- Be able to manage the payment, either alone or with assistance
- Make sure the Direct Payments are used to buy the agreed support you need

What can Direct Payments be used for?

The money is for you to buy the support you need, so you can live the life you want. Different people need different things and Direct Payments can be used to pay for anything that meets your assessed needs, including:

- help with your personal care
- equipment for the home
- support at home or at work
- support to do things during the day or evening
- support to have a break from caring

You don't have to have all your support via a Direct Payment. You can ask the Council to provide some of it and have a Direct Payment for the rest.

What can't Direct Payments be used for?

- To replace NHS Services, Housing Services (e.g. Disabled Facilities Grants), DSS benefits or Independent Living Fund payments.
- To pay for household bills or used for anything unlawful.
- People subject to certain mental health after care or criminal justice legislation may not be given Direct Payments.

How much are they worth?

There is no maximum or minimum level to a Direct Payment. The Direct Payment must be enough to pay for the support required.

How are they paid?

Direct Payments must be paid into a bank account used solely for that purpose.

Do you need to account for how you spend the money?

Yes. If you decide to use Direct Payments, you must keep proper records of all the payments you make, so keep all receipts safe. You should make all payments from your Direct Payments account by cheque, standing order, direct debit or electronic transfer (for example, Internet banking or telephone banking) – not cash.

For more information contact:

Direct Payments Development Officer
01446 704685
JPerkins@valeofglamorgan.gov.uk

SS/15/April 2015



GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Taliadau Uniongyrchol

Cewch y wybodaeth hon mewn iaith arall, mewn print bras, ar gryo-ddisg neu ar ffurf symlach drwy holi. Ffoniwch y Tîm Arloesi a Gwybodaeth ar: **01446 704814** er mwyn gwneud trefniadau, neu anfonwch neges i socialcareinfo@valeofglamorgan.gov.uk

Beth yw Taliadau Uniongyrchol?

Ffordd arall o gael gwasanaeth cymdeithasol yw Taliad Uniongyrchol. Yn lle trefnu gwasanaeth ar eich cyfer, byddwn yn rhoi swm o arian i chi. Cewch wedyn ei ddefnyddio i drefnu eich cymorth eich hun, a bydd gennych fwy o ddewis a rheolaeth wrth i chi fynd ati i gwrdd â'ch anghenion, a bydd eich trefniadau'n fwy hyblyg o ganlyniad.

Y grwpiau sy'n gymwys i dderbyn taliadau uniongyrchol ar ôl i reolwr achos asesu eu hanghenion yw:

- Pobl ac arnynt nam corfforol;
- Pobl ac arnynt nam ar y synhwyrâu;
- Pobl ag anabledd dysgu;
- Pobl hŷn;
- Pobl sy'n dioddef o salwch meddwl;
- Pobl a chanddynt gyfrifoldeb rhiant dros blentyn anabl;
- Plant anabl 16 neu 17 oed
- Gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifainc 16 neu 17 oed)
- Pobl sy'n cael eu hystyried yn addas i weithredu ar ran rhywun nad yw'n atebol i weithredu drosto'i hun.

Mae sawl ffordd o ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn dewis cyflogi Cynorthwy-ydd Personol, a chewch wneud hynny drwy gyflogi rhywun eich hun, drwy drefnu i asiantaeth breifat wneud y gwaith ar gontract neu drwy gyfuno'r trefniadau hyn. Serch hynny, ni chewch ddefnyddio taliadau uniongyrchol i brynu gofal preswyl tymor hir na gofal nyrsio. Ni chewch, y chwaith, eu defnyddio i dalu am wasanaethau – e.e. ambell i ganolfan ddydd - sy'n cael eu hariannu gan y cyngor.

Pwy a gaiff hawlio Taliadau Uniongyrchol?

Caiff bron pawb a gafodd gadarnhad drwy asesiad fod angen gofal cymdeithasol a chymorth arnynt, hawlio Taliadau Uniongyrchol, sef:

- Pobl hŷn sy'n dibynnu ar wasanaethau cymunedol;
- Pobl anabl;

- Pobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl;
- Pobl a chanddynt gyfrifoldeb rhiant dros blentyn anabl;
- Pobl sy'n gofalu am oedolyn anabl.

Er mwyn hawlio Taliadau Uniongyrchol, y mae'n rhaid i chi:

- fod wedi cyrraedd eich 16 oed;
- allu rheoli'r taliad ar eich pen eich hun neu gyda chymorth rhywun arall;
- sicrhau bod y Taliadau Uniongyrchol yn cael eu defnyddio i brynu'r cymorth sydd ei angen arnoch.

Beth ga' i ei brynu â Thaliad Uniongyrchol?

Arian ar gyfer prynu'r cymorth sydd ei angen arnoch, er mwyn i chi gael byw bywyd wrth eich bodd yw hwn. Mae anghenion pawb yn wahanol, a chewch ddefnyddio'r Taliadau Uniongyrchol i dalu am unrhyw beth sydd ei angen arnoch yn ôl eich asesiad, gan gynnwys:

- eich gofal personol;
- cyfarpar ar gyfer eich cartref;
- cymorth yn y gwaith neu'r cartref;
- cymorth i ddilyn eich gorchwylion yn y dydd a chyda'r nos;
- cymorth i orffwys rhag gofalu o bryd i'w gilydd.

Does dim rhaid i chi gael eich holl gymorth ar ffurf Taliad Uniongyrchol. Cewch ofyn am gael peth ohono'n unig yn y modd yna a chael y gweddill gan y cyngor.

Beth na cha' i ei brynu â Thaliadau Uniongyrchol?

- Ni chewch daliadau uniongyrchol yn lle gwasanaethau'r GIG, gwasanaethau tai (e.e. grantiau cyfleusterau'r anabl), budd-daliadau nawdd cymdeithasol na thaliadau'r gronfa byw'n annibynnol.
- Ni chewch ddefnyddio'r taliadau hyn i dalu biliau eich cartref nac ar gyfer unrhyw beth anghyfreithlon.
- Ni chewch Daliadau Uniongyrchol os ydych yn gymwys i hawlio ôl-ofal penodol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu os ydych yn cael eich erlyn o dan y system cyfiawnder troseddol.

Faint yw gwerth y Taliadau?

Nid oes uchafswm nac isafswm Taliad Uniongyrchol. Serch hynny, y mae'n rhaid i'r swm fod yn ddigon i dalu am y cymorth sydd ei angen.

Sut bydd yr arian yn cael ei dalu?

Mae'n rhaid talu'r Taliadau Uniongyrchol i gyfrif banc a sefydlwyd yn unswydd i'r diben hwnnw.

Oes rhaid i chi roi cyfrif am y Taliadau Uniongyrchol y byddwch yn eu gwario?

Oes. Os ydych yn penderfynu defnyddio Taliadau Uniongyrchol, bydd yn rhaid i chi gadw cofnod manwl o'r holl arian sy'n cael ei wario, felly cadwch eich holl dderbynebaw'n ddiogel. Dylai pob arian o'ch cyfrif Taliadau Uniongyrchol gael ei dalu drwy siec, archeb reolaidd, debyd uniongyrchol neu drosglwyddiad electronig (e.e. gan ddefnyddio'r system fancio ar y rhynggrwyd neu dros y ffôn). Ni ddylech dalu mewn arian parod.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r:

Swyddog Datblygu Taliadau Uniongyrchol

01446 704685

JPerkins@valeofglamorgan.gov.uk

SS/15/Ebrill2015